Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

## Y Cod Ymddygiad

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth ardderchog i bob ymwelydd.

Mae systemau a gweithdrefnau diogelwch o ran mynediad wedi'u cynllunio ar gyfer darparu mynediad am ddim i'r cyhoedd ymweld â'r mannau cyhoeddus. Ar yr un pryd, mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod yr adeilad, a phawb sydd ynddo, yn ddiogel.

**Gall ymwelwyr ddisgwyl:**

- amgylchedd glân a dymunol;
- gwybodaeth gywir;
- staff sy'n parchu eu hurddas a'u diwylliant;
- cyfarwyddiadau clir mewn argyfwng;
- ystafell cymorth cyntaf a staff sydd wedi'u hyfforddi yn y maes hwn.

**Tynnir sylw ymwelwyr at yr amodau a ganlyn:**

- ni chaniateir i unrhyw ymwelydd sydd o dan ddylanwad alcohol ddod i'r adeilad;
- ni chaiff ymwelwyr ddod â bwyd nac alcohol i'r adeilad;
- gofynnir i unrhyw ymwelydd sy'n ymddwyn yn amhriodol adael yr adeilad;
- bydd gofyn i ymwelwyr adael yr adeilad pan ofynnir iddynt wneud hynny;
- am resymau iechyd a diogelwch, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn rheoli nifer yr ymwelwyr sy'n cael dod i'r adeilad ar unrhyw adeg.

Mae'r amodau hyn ar waith er mwyn sicrhau diogelwch a lles ymwelwyr a staff. Gellir newid yr amodau os bydd lefel y bygythiad yn newid.

**Rhaid i staff diogelwch gydymffurfio â'r gweithdrefnau a ganlyn:**

- sgrinio eitemau sydd gan ymwelwyr drwy ddefnyddio peiriant pelydr x;
- gofyn i ymwelwyr gerdded drwy sganiwr i ddod o hyd i unrhyw fetel yn eu heiddo;
- defnyddio sganiwr llaw os oes metel wedi'i ganfod;
- cadw golwg ar ymddygiad ymwelwyr.
- **Rhaid i bob ymwelydd gydymffurfio â'r gweithdrefnau hyn**